TESTUNAU LLENYDDOL PONTRHYDFENDIGAID 2020

1. **Y GADAIR –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi mewn cynghanedd heb fod yn hwy na 80 llinell: **Gwahanu** neu **Gadael.**

   Noddir y wobr ariannol gan Dr Ted Jones, er cof am ei frawd, John Jones, cyn ysgrifennydd Llen a Llefaru.

   Gwobr: Cadair Fechan Arian a £150.

2. **Y GORON –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi yn y mesur rhydd heb fod yn hwy na 80 llinell: **Llanw a Thrai,** neu **Llanw** neu **Trai**

   Gwobr: Coron Fechan Arian a £150.

3. **EMYN – Emyn Angladdol**, neu addas i'w ganu ar lan y bedd. ***Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.***

4. **ENGLYN DIGRI– Yr Archdderwydd.** ***Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.***

5. **STORI FER – Cannwyll.** ***Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.***

6. **CYWYDD (12 llinell) – i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.** ***Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.***

7. **SONED neu DELYNEG – Unigedd.** ***Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.***

8. **TLWS YR IFANC (cyfyngedig i oedran blynyddoedd 7-13)** – Detholiad o dri darn cyferbyniol.

   Gwobrau: 1. Cadair Her Barhaol Selwyn a Neli Jones, Cadair fechan (i'w chadw gan yr enillydd) a £50; 2. £40; 3. £30.

9. **TALWRN Y BEIRDD**: Pedwar ymhob tîm. Y timau i anfon am y tasgau cyn y gystadleuaeth (Y gystadleuaeth i'w chynnal ar y nos Sul).

   Gwobrau: 1. £100 (Gwobr Goffa Raymond Osborne Jones) a Tharian Her Barhaol Raymond Osborne Jones; 2. £80; gyda £40 i bob tîm anfuddugol.

Yr holl gyfansoddiadau yn dwyn ffugenw yn unig, ac enwau'r ymgeiswyr mewn amlen dan sêl, i fod yn llaw Ysgrifennydd Adran Llen: Dr Ted Jones, Y Fron, Ffair Rhos, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6BP, fan bellaf erbyn **EBRILL 8fed 2020**. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Goron anfon **DAU** gopi o'i waith i'r gystadleuaeth.